OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 660 (Cy.70)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 10 Mawrth 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 11 Mawrth 2008
Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 129 a 203 (9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (**2**).

Diwygio'r Rheoliadau Optegol

2. Diwygir rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol (gwerth adbrynu taleb ar gyfer ailosod neu drwsio) fel a ganlyn —

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£50.50" rhodder "£51.90"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£13.00" rhodder "£13.40".

Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

3.—(1) Diwygir Atodlenni 1 i 3 o'r Rheoliadau Optegol yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau talebau a gwerth taleb ar yr wyneb — cyflenwi ac ailosod) yng ngholofn (3) o'r tabl (gwerth taleb ar yr wyneb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(1) *Swm blaenorol*	*(2)* *Swm newydd*
£34.60	£35.50
£52.60	£54.00
£76.90	£79.00
£173.70	£178.40
£59.80	£61.40
£76.00	£78.10
£98.50	£101.20
£190.90	£196.10
£177.90	£182.70.
£50.50	£51.90

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bychain ac arbennig, a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£11.30" rhodder "£11.60";

(b) ym mharagraff 1(1)(b) yn lle "£13.50" rhodder "£13.90";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£3.80" rhodder "£3.90";

(ch) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.30" rhodder "£4.40";

(d) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£57.00", "£50.50" a "£27.30" rhodder "£58.50", "£51.90" a "£28.00" yn eu trefn;

(dd) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£57.00" rhodder "£58.50";

(e) ym mharagraff 2(a), yn lle "£13.00" rhodder "£13.40"; a

(f) ym mharagraff 2(b), yn lle "£33.00" rhodder "£33.90".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau — trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Darpariaeth Drosiannol

4. Nid yw'r symiau a amnewidir gan reoliadau 2 a 3 yn gymwys ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008.

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2008

YR ATODLEN Rheoliad 3(4)

ATODLEN 3 I'R RHEOLIADAU OPTEGOL FEL Y'I HAMNEWIDIR GAN Y RHEOLIADAU HYN

"SCHEDULE 3 Regulation 19(2) and (3)

VOUCHER VALUES REPAIR

(1) Nature of Repair	*(2) Letter of Codes —Values*								
	A £	B £	C £	D £	E £	F £	G £	H £	I £
Repair or replacement of one lens	11.05	20.30	32.80	82.50	24.00	32.35	43.90	91.35	84.65
Repair or replacement of two lenses	22.10	40.60	65.60	165.00	48.00	64.70	87.80	182.70	169.30
Repair or replacement of:									
The front of a frame	11.35	11.35	11.35	11.35	11.35	11.35	11.35	11.35	11.35
A side of a frame	6.75	6.75	6.75	6.75	6.75	6.75	6.75	6.75	6.75
The whole frame	13.40	13.40	13.40	13.40	13.40	13.40	13.40	13.40	13.40."

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (“y Rheoliadau Optegol”) , sy'n darparu bod taliadau i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau a dynnwyd gan gategorïau penodol o bobl mewn cysylltiad â chyflenwi, ailosod a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 19 er mwyn cynyddu gwerth adbrynu taleb a ddyroddir tuag at y gost o ailosod un lens gyffwrdd, a chynyddu mwyafswm y cyfraniad drwy daleb at gost trwsio ffrâm sbectol.

Mae rheoliad 3 a'r Atodlen yn diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth talebau a ddyroddir tuag at gostau cyflenwi ac ailosod sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o drwsio ac ailosod teclynnau optegol. Tua 2.7% yw graddfa'r cynnydd yng ngwerth y talebau yn y Rheoliadau hyn.